Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Senedd Ymchwil**

# Y Diwydiant Dŵr yng Nghymru
## Briff Ymchwil

Medi 2018



www.cynulliad.cymru/ymchwil

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
**www.cynulliad.cymru/ymchwil**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Senedd Ymchwil**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**Tŷ Hywel**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1NA**

Ffôn: **0300 200 6574**
E-bost: **Lorna.Scurlock@Cynulliad.Cymru**
Twitter: **@SeneddYmchwil**
Blog: **SeneddYmchwil.blog**

**© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2018**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Senedd Ymchwil**

# Y Diwydiant Dŵr yng Nghymru
## Briff Ymchwil

Medi 2018

**Awduron:**
Jessica Laimann

**Trosolwg o'r papur:**
Mae'r Papur Briffio hwn gan y Gwasanaeth Ymchwil yn rhoi trosolwg o'r diwydiant dŵr yng Nghymru, gan gynnwys deddfwriaeth berthnasol, y setliad datganoli, cwmnïau dŵr yng Nghymru, polisi Llywodraeth Cymru a rolau a chyfrifoldebau sefydliadau allweddol.

Mae'r Gwasanaeth Ymchwil yn cydnabod y gymrodoriaeth seneddol a roddwyd i Jessica Laimann gan Gyngor Ymchwil y Celfyddydau a'r Dyniaethau, a'i galluogodd i gwblhau'r Papur Briffio hwn.

# Contents

**Cyflwyniad ........................................ 1**

**Deddfwriaeth ........................................ 1**

Cyfarwyddebau'r UE ........................................ 1

Deddfwriaeth y DU ........................................ 2

**Datganoli ........................................ 3**

Cymhwysedd deddfwriaethol a gweithredol ........................................ 3

**Cwmnïau dŵr yng Nghymru ........................................ 5**

Dŵr Cymru ........................................ 6

Hafren Dyfrdwy ........................................ 6

Penodiadau ac Amrywiadau Newydd ........................................ 7

**Polisi Llywodraeth Cymru ........................................ 8**

Strategaeth Ddŵr i Gymru ........................................ 8

Rheoliadau Dyled Ddrwg ........................................ 9

Canllaw Tariffau Cymdeithasol ........................................ 10

Cystadleuaeth ........................................ 10



**Rheoleiddio ........................................ 12**

Ofwat ........................................ 12

Cyfoeth Naturiol Cymru ........................................ 14

Yr Arolygiaeth Dŵr Yfed ........................................ 14

Y Cyngor Defnyddwyr Dŵr ........................................ 15

Awdurdodau Lleol ........................................ 15

**Ffynonellau allweddol ........................................ 16**

# Cyflwyniad

Mae'r diwydiant dŵr a charthffosiaeth yng Nghymru yn un o'r meysydd mwyaf cymhleth yn y setliad datganoli, yn bennaf oherwydd natur drawsffiniol ffiniau cwmnïau dŵr. Fodd bynnag, mae newidiadau strwythurol diweddar yn y diwydiant dŵr yng Nghymru a Gorllewin Canolbarth Lloegr wedi cynyddu cysondeb ardaloedd penodi cwmnïau dŵr â ffiniau cenedlaethol.

Mae'r diwydiant yn cael ei reoleiddio'n dda i sicrhau ansawdd uchel dŵr yfed, trefniadau digonol i ddiogelu'r amgylchedd a strwythurau codi tâl teg i gwsmeriaid a chwmnïau dŵr fel ei gilydd.

Mae'r Papur Briffio hwn gan y Gwasanaeth Ymchwil yn rhoi trosolwg o'r diwydiant yng Nghymru, gan gynnwys y setliad datganoli, y ddeddfwriaeth a'r polisi perthnasol, a rolau a chyfrifoldebau sefydliadau allweddol.

# Deddfwriaeth

## Cyfarwyddebau'r UE

Caiff polisi dŵr ei lywio'n helaeth gan aelodaeth y DU o'r UE. Mae Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am weithredu nifer o Gyfarwyddebau'r UE sy'n ymwneud â pholisi dŵr, gan gynnwys y canlynol;

- **Cyfarwyddeb y Fframwaith Dŵr;**
- **Y Gyfarwyddeb Dŵr Ymdrochi Ddiwygiedig;**
- **Y Gyfarwyddeb Nitradau;**
- **Y Gyfarwyddeb Trin Dŵr Gwastraff Trefol;**
- **Y Gyfarwyddeb Dŵr Yfed;** a'r
- **Cyfarwyddeb Cynefinoedd.**

Mae cytundeb cyffredinol am yr angen am fframweithiau cyffredin y DU mewn meysydd penodol sydd ar hyn o bryd wedi'u llywodraethu gan gyfraith yr UE, pan fydd y DU yn gadael yr UE.

Ar 9 Mawrth, **cyhoeddodd Llywodraeth y DU** ei hasesiad dros dro o'r meysydd lle y gallai fod angen y cyfryw fframweithiau cyffredin ar draws y DU, mewn meysydd o gyfraith yr UE sy'n croestorri â chymhwysedd datganoledig. Mae'r asesiad

yn rhoi 155 o bwerau mewn tri chategori: y rhai y gall fod angen fframweithiau deddfwriaethol arnynt (24 o feysydd); fframweithiau anneddfwriaethol (82 o feysydd); meysydd nad oes arnynt angen rhagor o gamau (49 o feysydd).

Mae **dadansoddiad fframweithiau (Saesneg yn unig)** Llywodraeth y DU yn awgrymu, naill ai y meysydd sy'n ymwneud â pholisi o ran dŵr (ansawdd dwr ac adnoddau dŵr) nad oes arnynt angen rhagor o gamau, neu gall fod arnynt angen fframweithiau cyffredin anneddfwriaethol (rheoli gwastraff a bioamrywiaeth, gan gynnwys y Gyfarwyddeb Cynefinoedd).

Fodd bynnag, nodir bod yr amgylchedd naturiol a bioamrywiaeth yn faes y bydd angen trafodaeth fanylach arno ac y gall gynnwys cymysgedd o gymhwysedd wedi'i gadw a chymhwysedd datganoledig.

Felly, mae'n debygol y bydd cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad yn ddarostyngedig i gyfyngiadau sy'n ymwneud â'r amgylchedd naturiol a bioamrywiaeth nes y cytunir ar fframweithiau cyffredin y DU yn y maes polisi hwn.

## Deddfwriaeth y DU

Mae ***Deddf y Diwydiant Dŵr 1991*** (fel y'i diwygiwyd gan ***Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1999*** a ***Deddf Dŵr 2003***) yn nodi'r **fframweithiau rheoleiddio, cystadleuaeth a chynrychiolaeth defnyddwyr ar gyfer y sector dŵr yng Nghymru a Lloegr**

Mae ***Deddf Adnoddau Dŵr 1991*** (fel y'i diwygiwyd gan ***Ddeddf Dŵr 2003***) yn darparu ar gyfer rheoleiddio'r gwaith o reoli adnoddau dŵr, tynnu a chronni; a safonau ansawdd dŵr a rheoli llygredd, yng Nghymru a Lloegr.

Mae ***Deddf Dŵr 2014*** yn darparu ar gyfer diwygio'r diwydiant dŵr, yn bennaf yng Nghymru a Lloegr. Mae hyn yn cynnwys galluogi busnesau a chwsmeriaid dibreswyl eraill i newid eu cyflenwyr dŵr a charthffosiaeth o 1 Ebrill 2017 (er nad yw hyn mewn grym yng Nghymru; gweler yr adran 'Cystadleuaeth' isod). Mae Rhan 4 o'r Ddeddf yn gwneud darpariaeth ar gyfer cyflwyno yswiriant llifogydd fforddiadwy ar gyfer aelwydydd sydd mewn perygl o lifogydd yn y DU. Cyflwynwyd y cynllun ailyswirio llifogydd arfaethedig ***Flood Re gan gyfarwyddyd Gweinidogol*** yn 2015.





# Datganoli

Mae'r diwydiant dŵr a charthffosiaeth wedi bod yn un o'r meysydd mwyaf cymhleth yn y setliad datganoli. Mae hyn yn bennaf oherwydd bod ffiniau cwmnïau dŵr, sy'n seiliedig ar rwydweithiau pibellau dŵr a charthffosydd, ac sy'n rhagflaenu datganoli, yn adlewyrchu dalgylchoedd afonydd yn hytrach na'r ffin weinyddol rhwng Cymru a Lloegr.

Datganolodd ***Deddf Llywodraeth Cymru 2006*** nifer o bwerau sy'n ymwneud â'r diwydiant dŵr i'r Cynulliad, gan gynnwys cyflenwad dŵr, rheoli adnoddau dŵr (gan gynnwys cronfeydd dŵr), ansawdd dŵr, cynrychioli defnyddwyr, rheoli perygl llifogydd a diogelu'r arfordir.

Diwygiwyd Deddf Llywodraeth Cymru 2006 gan ***Ddeddf Cymru 2017*** (Deddf 2017). Mae Adrannau 48-52, Atodlen 7A ac Atodlen 7B o Ddeddf 2017 yn cyflwyno darpariaethau ar gyfer gweithredu nifer o ***argymhellion y Comisiwn Silk*** sy'n ymwneud â dŵr a charthffosiaeth. Mae'r rhain yn cynnwys datganoli pwerau dros garthffosiaeth i'r Cynulliad, gan gyflwyno protocol rhynglywodraethol ar gyfer rheoli materion dŵr trawsffiniol a chael gwared ar bŵer yr Ysgrifennydd Gwladol i ymyrryd mewn achosion lle mae Bil Cynulliad neu weithredoedd corff cyhoeddus yng Nghymru yn cael effeithiau andwyol difrifol ar adnoddau dŵr, cyflenwad dŵr neu ansawdd dŵr yn Lloegr.

Gosodwyd y **protocol dŵr (PDF 124KB)** ar gyfer Cymru a Lloegr ***gerbron y Cynulliad*** a Senedd y DU ym mis Tachwedd 2017. Cafodd pwerau ymyrryd yr Ysgrifennydd Gwladol eu diddymu a'u disodli gan y protocol ***ym mis Ebrill 2018.***

## Cymhwysedd deddfwriaethol a gweithredol

Nodir cymwyseddau dros y diwydiant dŵr yn ***Neddf y Diwydiant Dŵr 1991.*** Mae'r ddeddfwriaeth yn gwahaniaethu rhwng ***ymgymerwyr a thrwyddedeion.*** (neu gyflenwyr trwyddedig):

- mae ymgymerwyr yn benodeion statudol sy'n gyfrifol am ddarparu gwasanaethau dŵr neu garthffosiaeth mewn rhanbarth (ardal benodi) yng Nghymru neu Loegr; ac
- mae cyflenwyr trwyddedig yn gwmnïau neu'n bersonau sydd â'r hawl i ddefnyddio seilwaith ymgymerwyr i gyflenwi cwsmeriaid dibreswyl.

Mae ardaloedd penodi ymgymerwyr yn seiliedig ar ddalgylchoedd afonydd, felly gallant bontio'r ffin rhwng Cymru a Lloegr.

Mae cymhwysedd deddfwriaethol dros ymgymerwyr dŵr a charthffosiaeth wedi'i ddatganoli ar hyn o bryd ar sail **ymgymerwyr sy'n gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru**. Mae'r pŵer i benodi a rheoleiddio ymgymerwr wedi'i ddatganoli os yw ardal benodi'r ymgymerwr yn gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru (ymgymerwr Cymreig), ac yn bŵer wedi'i gadw os yw ardal benodi'r ymgymerwr yn gyfan gwbl neu'n bennaf yn Lloegr (ymgymerwr Seisnig).

Mae rheoleiddio cyflenwyr dŵr trwyddedig yn gweithredu ar sail debyg. Mae rheoliad wedi'i ddatganoli os yw'r cyflenwr trwyddedig yn defnyddio system ymgymerwr Cymreig ac fe'i cedwir os yw'n defnyddio system ymgymerwr Seisnig.

O dan ***Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991,*** mae cymhwysedd gweithredol mewn perthynas â gweithgareddau'r diwydiant dŵr a charthffosiaeth wedi'i ddatganoli i raddau helaeth mewn perthynas ag ymgymerwyr sy'n gweithredu'n gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru, ond mae rhai eithriadau.

Er bod y pwerau deddfwriaethol a gweithredol hyn yn gymesur i raddau helaeth ar gyfer Cymru a Lloegr, mae nifer o anghymesureddau mewn cymhwysedd deddfwriaethol. Mae'r cymhwysedd dros ardaloedd ymgymerwyr Seisnig sydd yng Nghymru wedi'i gadw. Fodd bynnag, nid yw ardaloedd ymgymerwyr Cymreig sydd yn Lloegr wedi'u datganoli oherwydd eu bod y tu allan i gymhwysedd daearyddol y Cynulliad (***adran 108A(2)(b) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006,*** fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf 2017).

O safbwynt ymarferol, mae hyn yn golygu, er y gall Gweinidogion Cymru, er enghraifft, lunio rhai mathau o is-ddeddfwriaeth mewn perthynas ag ardaloedd penodi neu gyflenwi Dŵr Cymru yn eu cyfanrwydd (gan effeithio ar rai cwsmeriaid yn Lloegr o ganlyniad i hynny), ni fyddai cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad, o reidrwydd, yn galluogi'r Cynulliad i wneud deddfwriaeth sylfaenol ar yr un mater.


***Argymhellodd Comisiwn Silk*** gysoni'r ffin ar gyfer cymhwysedd deddfwriaethol ar gyfer dŵr â'r ffin genedlaethol. Mewn gwirionedd, byddai hyn yn golygu bod y drefn o reoleiddio'r diwydiant yng Nghymru ar sail ymgymerwyr sy'n 'gyfan gwbl neu'n bennaf' yng Nghymru yn dod i ben. Gwneir darpariaethau ar gyfer gweithredu'r argymhelliad hwn yn ***adran 48(1) o Ddeddf 2017.*** Fodd bynnag, hyd at fis Medi 2018, nid yw'r adran berthnasol wedi dod i rym.





# Cwmnïau dŵr yng Nghymru

Dangosir y ddau brif gwmni dŵr sy'n gwasanaethu cwsmeriaid yng Nghymru ar y map isod (noder mai dangosol yn unig yw ffiniau'r cwmnïau). Mae'r ddau gwmni'n ymgymerwyr drwy benodiad statudol y mae eu hardal benodi yn gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru.




Ffynhonnell: Arolygiaeth Dŵr Yfed (ADY)

## Dŵr Cymru

Mae ***Dŵr Cymru*** yn gwmni dŵr a charthffosiaeth sy'n cwmpasu'r rhan fwyaf o Gymru a rhai ardaloedd cyfagos yn Lloegr. Mae'n gwasanaethu dros dair miliwn o bobl ac, ers 2001, mae wedi bod yn nwylo ***Glas Cymru.***

Mae ***Glas Cymru*** yn gwmni un diben a sefydlwyd i berchnogi, ariannu a rheoli Dŵr Cymru. Mae'n gwmni cyfyngedig drwy warant ac, oherwydd nad oes ganddo gyfranddalwyr, caiff unrhyw warged ariannol ei ailfuddsoddi yn Dŵr Cymru.

## Hafren Dyfrdwy

***Hafren Dyfrdwy*** (Dŵr Dyffryn Dyfrdwy gynt) yn gwmni dŵr a charthffosiaeth sy'n gwasanaethu ***115,000 o gwsmeriaid*** yng ngogledd-ddwyrain Cymru. Cafodd y cwmni ***ei ailstrwythuro a'i ailenwi ym mis Gorffennaf 2018,*** ar ôl i Severn Trent Plc ***brynu Dŵr Dyffryn Dyfrdwy*** am £84 miliwn ym mis Chwefror 2017. Ymchwiliodd yr ***Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd*** i'r pryniad a'i gymeradwyo yn 2016. ***Trefnwyd i ohebiaeth rhwng Llywodraeth Cymru a Severn Trent Water*** cyn y pryniand fod ar gael o dan *Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000*.

Mae Hafren Dyfrdwy yn dwyn ynghyd gwsmeriaid Cymreig a wasanaethwyd gynt gan Severn Trent Water a Dŵr Dyffryn Dyfrdwy. Roedd Dŵr Dyffryn Dyfrdwy yn arfer bod yn gwmni dŵr yn unig a oedd yn cyflenwi cwsmeriaid yng ngogledd-ddwyrain Cymru a gogledd-orllewin Lloegr. Mae Severn Trent Water yn gwmni dŵr a charthffosiaeth sy'n cwmpasu llawer o ganolbarth Lloegr a, chyn mis Gorffennaf 2018, ran o ganolbarth Cymru.

Ar ôl prynu'r cwmni, **dyfarnwyd amrywiad** i Dŵr Dyffryn Dyfrdwy a Severn Trent Water (gweler yr adran Penodiadau ac Amrywiadau Newydd) i gyfnewid ardaloedd penodi'r ddau gwmni yn effeithiol mewn ffordd sy'n cysoni â'r ffin rhwng Cymru a Lloegr.





Ers yr amrywiad, penodir ardaloedd penodi yng Nghymru i ymgymerwyr Cymreig yn unig ac maent yn dod o dan gymhwysedd datganoledig. Yn flaenorol, Llywodraeth y DU oedd yn rheoleiddio ardaloedd yng nghanolbarth Cymru a oedd yn cael eu gwasanaethu gan yr ymgymerwr Seisnig Severn Trent Water. O ganlyniad i'r gwaith ailstrwythuro hwn, ***mae cwsmeriaid yn yr ardaloedd perthnasol yn dod dan reoliadau gwahanol.*** Yn benodol, daeth cwsmeriaid dibreswyl ym Mhowys a oedd wedi newid cyflenwyr yn flaenorol dan reoliad y DU yn gwsmeriaid Hafren Dydrdwy ac, o dan reoliadau Cymru bellach, dim ond os ydynt yn defnyddio dros 50 miliwn litr y flwyddyn y caniateir iddynt newid cyflenwyr (gweler yr adran Cystadleuaeth).

Mae Severn Trent Plc yn masnachu ar ***Gyfnewidfa Stoc Llundain*** ac mae'n rhan o Fynegai 100 FTSE.

## Penodiadau ac Amrywiadau Newydd

Mae ***penodiadau ac amrywiadau newydd*** (sef penodiadau disodli gynt) yn galluogi cyflenwyr dŵr neu garthffosiaeth presennol i gael eu disodli gan un arall, ar gyfer ardal benodol. O dan feini prawf penodol, mae'n caniatáu i rai cwsmeriaid ddewis cyflenwr gwahanol.

Ceir penodiad newydd pan gaiff cwmni ei benodi am y tro cyntaf i ddarparu gwasanaethau dŵr a/neu garthffosiaeth ar gyfer ardal ddaearyddol benodol.

Ceir amrywiad pan fydd cwmni sydd eisoes wedi'i benodi yn gofyn i Ofwat amrywio ei benodiad presennol fel y gall newid neu ehangu'r ardaloedd y mae'n darparu gwasanaethau iddynt.

Gellir dyfarnu penodiadau ac amrywiadau newydd yn yr achosion a ganlyn:

- nid yw ardal yn cynnwys safleoedd sy'n cael gwasanaethau gan gwmni dŵr neu garthffosiaeth penodedig (ei bod heb ei gwasanaethu);
- mae cwsmer yn defnyddio (neu'n debygol o ddefnyddio) o leiaf 250 miliwn litr o ddŵr y flwyddyn (mewn ardaloedd penodi ymgymerwyr Cymreig) neu 50 miliwn litr o ddŵr y flwyddyn (mewn ardaloedd penodi ymgymerwyr Seisnig) ym mhob un o'i safleoedd ac mae am newid ei gyflenwr; neu
- mae'r cwmni penodedig presennol yn cytuno i drosglwyddo rhan o'i ardal i gwmni gwahanol.

Mae Ofwat, rheoleiddiwr economaidd y sector dŵr yng Nghymru a Lloegr, yn gyfrifol am ymgynghori ar benodiadau ac amrywiadau newydd a'u dyfarnu. Gall y sawl a benodir yn llwyddiannus wasanaethu ei gwsmer(iaid) newydd naill ai drwy ddefnyddio ei adnoddau neu ei ddulliau trin ei hun, neu drwy ofyn i ddefnyddio asedau'r cyflenwr trwyddedig presennol. Mae Ofwat wedi ***dyfarnu pump o benodiadau ac amrywiadau newydd*** yng Nghymru fel a ganlyn:

- Albion Water, yn Shotton (Sir y Fflint), a ddyfarnwyd ar 1 Mai 1999.
- SSE Water, yn Llanilid (Rhondda Cynon Taf), a ddyfarnwyd ar 9 Mawrth 2009.
- Albion Eco, yn Shotton (Sir y Fflint), a ddyfarnwyd ar 28 Gorffennaf 2016; a
- ***Dŵr Dyffryn Dyfrdwy, Powys/Sir Fynwy, a ddyfarnwyd ar 23 Mawrth 2018***



**Y diwydiant dŵr yng Nghymru:** Briff Ymchwil

# Polisi Llywodraeth Cymru

Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am bennu'r polisi strategol ar gyfer dŵr yng Nghymru, y mae'r sefydliadau a ganlyn yn gweithredu yn unol ag ef:

- cwmnïau dŵr **sy'n gyfan gwbl neu'n bennaf** yng Nghymru - Dŵr Cymru a Hafren Dyfrdwy;
- Ofwat;
- Cyfoeth Naturiol Cymru;
- yr Arolygiaeth Dŵr Yfed; ac
- awdurdodau lleol.

## Strategaeth Ddŵr i Gymru

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei ***Strategaeth Ddŵr i Gymru*** ym mis Mai 2015, ynghyd ag asesiad amgylcheddol strategol ac asesiad rheoliadau cynefinoedd. Mae'r strategaeth yn ymgymryd ag ymrwymiadau yn ***Rhaglen Lywodraethu 2011*** Llywodraeth Cymru i ddatblygu strategaeth ddŵr i Gymru a chymryd camau i fynd i'r afael â fforddiadwyedd dŵr. ***Ymgynghorodd*** Llywodraeth Cymru ar y strategaeth rhwng mis Ebrill a mis Gorffennaf 2014.

Mae'r strategaeth yn amlinellu cyfeiriad polisi mewn chwe thema allweddol:

- 'Dŵr ar gyfer natur, pobl a busnesau' - rheolaeth gynaliadwy o ansawdd a maint yr adnoddau dŵr;
- 'Gwella'r ffordd rydym yn cynllunio ac yn rheoli ein gwasanaethau dŵr' – sicrhau gwasanaethau dŵr cynaliadwy a chydnerth;
- 'Darparu gwasanaethau rhagorol i gwsmeriaid' - mynediad at wasanaethau dŵr a charthffosiaeth fforddiadwy;
- 'Diogelu a gwella ansawdd dŵr yfed' – cynnal y safonau uchel presennol o ansawdd dŵr yfed y cyhoedd a sicrhau cydymffurfiaeth â'r Gyfarwyddeb Dŵr Yfed;
- 'Systemau draenio a charthffosiaeth ar gyfer yr 21ain ganrif' – rheoli gwastraff a dŵr wyneb mewn ffordd integredig; a
- Chefnogi dulliau cyflawni amcanion a chanlyniadau allweddol.

Mae'r ddogfen yn cynnwys cynllun gweithredu lefel uchel sy'n amlinellu sut y caiff y strategaeth ei chyflwyno tan 2025, ynghyd ag ymrwymiad gan Lywodraeth Cymru i adolygu ac adrodd ar gynnydd yn flynyddol.

Cyhoeddwyd yr ***adroddiad diweddaraf ar y cynllun gweithredu*** ym mis Medi 2016. Mae'r diweddariad yn amlinellu'r camau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cymryd rhwng 2015 a 2016 i gyflawni'r amcanion a nodir yn y Strategaeth. Mae'r rhain yn cynnwys:

- cyflenwad cyllid ychwanegol i Cyfoeth Naturiol Cymru ddarparu rhaglen ***adfer mwyngloddiau metel;***
- cyhoeddi ***canllawiau codi tâl ychwanegol i Ofwat (PDF 316KB) (Saesneg yn unig);***
- estyn cylch gorchwyl ***NYTH (cynllun Llywodraeth Cymru ar gyfer mynd i'r afael â thlodi tanwydd)*** i gwsmeriaid cwmnïau dwr Cymreig;
- cyhoeddi ***Cyfarwyddiadau Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr (Cymru) (Saesneg yn unig) ac egwyddorion arweiniol ar gyfer datblygu Cynlluniau Rheoli Adnoddau Dŵr ar gyfer 2020;***
- ***Gweithredu Rheoliadau Dŵr (Rheoli Llygredd) (Storio Olew) (Cymru) 2016 i*** amddiffyn dyfroedd rhag llygredd olew, yn dilyn ***ymgynghoriad Llywodraeth Cymru yn 2015; a***
- chyhoeddi ***safonau cynghori cenedlaethol ar gyfer systemau draenio cynaliadwy (SuDS).***

Cyhoeddodd y diweddariad hefyd ganllawiau codi tâl manwl ar gyfer taliadau datblygwyr, taliadau swmpgyflenwi a phrisiau mynediad. Cyhoeddwyd y ***canllawiau (PDF 336KB)*** yn 2017

## Rheoliadau Dyled Ddrwg

Gosododd Llywodraeth Cymru ei dogfen, sef ***Rheoliadau'r Diwydiant Dŵr (Ymgymerwyr sy'n Gyfan Gwbl neu'n Bennaf yng Nghymru) (Gwybodaeth am Feddianwyr nad ydynt yn Berchenogion) 2014*** gerbron y Cynulliad ar 3 Rhagfyr 2014. Daeth y Rheoliadau i rym ar 1 Ionawr 2015. Yn dilyn ***ymgynghoriad yn 2013,*** cynigiodd Llywodraeth Cymru Reoliadau 'Dyled Ddrwg' i helpu'r diwydiant dŵr i leihau'r ddyled o ganlyniad i filiau heb eu talu a helpu i leihau biliau. Ar hyn o bryd, pob cwsmer sy'n talu'r cwmni dŵr sy'n talu cost dyled lle na chaiff biliau dŵr eu talu. Yn 2014-15, ychwanegodd hyn ***tua £21*** at bob bil.





Gan fod llawer o ddyledwyr dŵr yn denantiaid, mae'r Rheoliadau yn ei gwneud yn ddyletswydd ar landlordiaid i ddarparu manylion am eu cyfeiriad eu hunain ynghyd ag enw'r tenant, dyddiad geni a'r dyddiad iddo ddechrau deiliadaeth. Os na fydd landlordiaid yn darparu'r wybodaeth hon, maent yn atebol ar y cyd am dalu taliadau dŵr yn yr eiddo lle mae'r tenant yn byw. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi ***canllawiau anstatudol mewn perthynas â'r Rheoliadau.***

## Canllaw Tariffau Cymdeithasol

O dan adran 44 o ***Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010,*** mae'n ofynnol i Lywodraeth Cymru gyhoeddi canllawiau i gwmnïau dŵr a charthffosiaeth ac Ofwat am gynnwys tariffau cymdeithasol yn eu cynlluniau codi tāl.

Yn 2013, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei ***Chanllaw Tariffau Cymdeithasol*** ar gyfer cwmnïau dŵr. Mae'r Canllaw Tariffau Cymdeithasol yn caniatáu i gwmnïau dŵr sefydlu croes-gymhorthdal i helpu cartrefi sy'n cael trafferth talu eu biliau dŵr. Er nad yw Llywodraeth Cymru wedi pennu terfyn uwch, cred y dylai hyd at 2.5 y cant o fil dŵr a charthffosiaeth cyfartalog cwmni fod yn lefel resymol o groes-gymhorthdal.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn disgwyl i gwmnïau dŵr ystyried mesurau i wella fforddiadwyedd dŵr, fel cynnig cyngor ar effeithlonrwydd dŵr, mesurau i wella›r broses o reoli biliau a›u talu, a chyngor i gartrefi ar ddewis mesurydd i leihau eu biliau.

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y byddai'n ***adolygu'r Canllaw Tariff Cymdeithasol*** ar ôl lansio'r strategaeth ddŵr newydd. Hyd at fis Medi 2018, ni chyhoeddwyd canllaw newydd.

## Cystadleuaeth

Mae gan Gymru a Lloegr reoliadau gwahanol ynghylch gallu cwsmeriaid i newid cyflenwyr gwasanaethau dŵr a charthffosiaeth. Sylwer bod y Rheoliadau a ddisgrifir yn yr adran hon yn pennu o dan ba amodau y caiff cwsmeriaid unigol newid cyflenwyr. Mae hyn yn wahanol i benodiadau ac amrywiadau newydd, sy'n penodi cwmnïau i ardal ddaearyddol benodol, er eu bod yn cael eu defnyddio i'r un perwyl weithiau.

### Cwsmeriaid dibreswyl

Mae ***Deddf Dŵr 2014*** yn cynnwys mesurau i ganiatáu i fusnesau a chwsmeriaid dibreswyl eraill newid cyflenwr dŵr a charthffosiaeth os ydynt am wneud hynny. Ers mis Ebrill 2017, gall pob cwsmer dibreswyl mewn ardaloedd penodi ymgymerwyr Seisnig ***newid cyflenwyr dŵr*** o dan y Ddeddf. Yn flaenorol, roedd cwsmeriaid dibreswyl yn yr ardaloedd hyn yn gallu newid cyflenwyr dim ond os oeddent yn defnyddio mwy na 5 miliwn litr y flwyddyn.

Nid oedd Llywodraeth Cymru yn cytuno â chyflwyno cystadleuaeth i'r farchnad ddibreswyl yng Nghymru. Yn 2013, dywedodd Alun Davies, y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd ar y pryd, nad oedd Llywodraeth Cymru ***wedi derbyn unrhyw enghreifftiau clir na thystiolaeth (PDF 171KB)*** i ddangos y manteision o gystadleuaeth ac nad yw Llywodraeth Cymru yn awyddus i ddilyn y cyfarwyddyd a amlinellir gan Lywodraeth y DU drwy fod yn rhy ddibynnol ar gystadleuaeth. Yn ystod ***sesiwn dystiolaeth gyda'r Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd ar y pryd,*** dywedodd Alun Davies:

> Rwy'n credu bod gennym gwmni, yn Dŵr Cymru, sy'n gwneud job arbennig o dda, ac mae gennym yn Glas Cymru fframwaith a system o gyflenwi dŵr sy'n gweithio i bobl Cymru ac sydd wedi dod â buddsoddiad i mewn i'r system ac sydd wedi lleihau biliau. … Felly, ni hoffwn weld y math o gystadleuaeth y mae Llywodraeth San Steffan yn ei drafod ar hyn o bryd yn ein system ni yng Nghymru.

Hyd at fis Gorffennaf 2018, mae Llywodraeth Cymru yn dal i weithredu ar ddarpariaethau *Deddf Dŵr 2003*. Mae'r darpariaethau hyn yn caniatáu i gwsmeriaid dibreswyl newid cyflenwyr os ydynt yn defnyddio mwy na 50 miliwn litr y flwyddyn ac, yn hanesyddol, ***prin iawn yw'r rhai sydd wedi newid cyflenwyr (PDF 342KB).***

### Cwsmeriaid preswyl

O dan y ddeddfwriaeth bresennol, ni all cwsmeriaid preswyl yng Nghymru a Lloegr newid eu darparwyr gwasanaeth dŵr neu garthffosiaeth. Ym mis Tachwedd 2015, ***gofynnodd Llywodraeth y DU i Ofwat*** ddarparu dadansoddiad o gostau a buddion cyflwyno cystadleuaeth i gwsmeriaid preswyl yn Lloegr. Mae'r ***adroddiad terfynol,*** a gyhoeddwyd ym mis Medi 2016, yn nodi y byddai cyflwyno cystadleuaeth yn debygol o arwain at fudd net. Hyd at fis Gorffennaf 2018, nid yw Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi rhagor o gamau i'r cyfeiriad hwn.



**Y diwydiant dŵr yng Nghymru:** Briff Ymchwil

Pan ofynnwyd a oedd Llywodraeth Cymru yn ystyried cynnal asesiad tebyg ar gyfer y farchnad ddomestig yng Nghymru, dywedodd Hannah Blythyn, Gweinidog yr Amgylchedd, ***ym mis Ebrill 2018:***

> The Consumer Council for Water, in response to the Ofwat review, warned that customers would end up disappointed if household water competition were to be introduced based on an overly optimistic review by Ofwat.

## Rheoleiddio

Mae'r diwydiant dŵr yn cael ei reoleiddio'n dda. Mae rolau a chyfrifoldebau'r gwahanol reoleiddwyr a sefydliadau perthnasol eraill wedi'u nodi isod.

### Ofwat

***Ofwat (neu'r Awdurdod Rheoleiddio Gwasanaethau Dŵr)*** yw'r rheoleiddiwr economaidd ar gyfer Cymru a Lloegr. Mae'n gweithredu'n annibynnol ar ddiwydiant a Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, ond o fewn fframwaith polisi a bennwyd gan Weinidogion Cymru a Gweinidogion y DU.

Ei ***brif ddyletswyddau*** yw sicrhau bod gwasanaethau o ansawdd da yn cael eu darparu i gwsmeriaid, gan sicrhau bod gan gwmnïau dŵr y cyllid sydd ei angen i ddarparu eu gwasanaethau'n briodol. Mae hefyd yn annog cystadleuaeth pan fo hyn o fudd i ddefnyddwyr. Mae ei brif ddyletswyddau wedi'u nodi yn ***Neddf y Diwydiant Dŵr 1991*** (fel y'i diwygiwyd gan ***Ddeddf Dŵr 2003***). Mae gan Ofwat ***ddyletswyddau eilaidd*** hefyd, sef cyfrannu at ddatblygu cynaliadwy a hyrwyddo effeithlonrwydd.

Mae Ofwat yn cyfyngu ar y prisiau y gall cwmnïau dŵr eu codi drwy ei broses adolygu prisiau. Mae'r rhan fwyaf o gwmnïau dŵr yn gweithredu fel monopolïau sy'n golygu nad oes gan y rhan fwyaf o ddefnyddwyr ddewis o ran darparwr. Felly, Ofwat sy'n pennu'r terfynau pris y gall pob cwmni unigol eu codi. Mae'n gwneud hyn drwy graffu ar gynlluniau busnes cwmnïau dŵr a chydbwyso'r angen am wasanaethau dŵr a charthffosiaeth fforddiadwy â'r buddsoddiad sydd ei angen ar y cwmnïau i gynnal a gwella seilwaith a bodloni safonau amgylcheddol. Cynhelir adolygiadau pris bob pum mlynedd. Cynhaliwyd **adolygiad pris 2015-2020** yn 2014. Cyhoeddodd Ofwat ei **fethodoleg derfynol** ar gyfer adolygiad pris 2020-25 ym mis Rhagfyr 2017.

Mae Ofwat hefyd yn gyfrifol am fonitro perfformiad cwmnïau mewn perthynas â chanlyniadau polisi allweddol ac am bennu targedau ar gyfer effeithlonrwydd a gollyngiadau. Mae Ofwat yn ***pennu targedau ar gyfer lleihau gollyngiadau*** a gall gymryd camau os na fydd cwmnïau'n eu cyrraedd. Cyhoeddodd y fethodoleg derfynol ar gyfer adolygiad pris 2019 ***darged lleihau gollyngiadau ar gyfer pob cwmni o 15 y cant*** erbyn 2025. Yn flaenorol, gosodwyd targedau gollyngiadau'n unigol ar gyfer cwmnïau gwahanol yn seiliedig ar ***lefel economaidd gynaliadwy gollyngiadau*.** Roedd lefel economaidd gynaliadwy gollyngiadau'n ei gwneud yn ofynnol i gwmnïau atgyweirio gollyngiadau lle mae'r gost o wneud hynny'n llai na'r gost o beidio â gwneud hynny. Yn ôl y fethodoleg derfynol, mae'r targed gollyngiadau newydd yn un y cant yn uwch na'r ymrwymiad lleihau mwyaf yn adolygiad pris 2014.

Mae gan Lywodraeth Cymru **femorandwm cyd-ddealltwriaeth (PDF 63KB)** gydag Ofwat. Yn 2017, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ***ddwy ddogfen ganllaw ychwanegol i Ofwat*** ('Datganiad blaenoriaethau ac amcanion strategol ar gyfer Ofwat' a 'Canllawiau i Ofwat ar godi tâl am ffioedd datblygwyr, ffioedd swmpgyflenwadau a ffioedd mynediad').

Cyflwynodd ***Deddf Dŵr 2014*** ddyletswydd statudol newydd ar Ofwat, a Gweinidogion Cymru ac Ysgrifennydd Gwladol perthnasol Llywodraeth y DU, er mwyn sicrhau y gall systemau dŵr a charthffosydd yng Nghymru a Lloegr wrthsefyll llifogydd, sychder a newidiadau i'r boblogaeth a'r hinsawdd. Mewn ymateb, sefydlodd Ofwat **grŵp gorchwyl a gorffen cydnerthedd** ym mis Ionawr 2015, er mwyn helpu i ddiffinio beth yw ystyr cydnerthedd y sector dŵr mewn gwirionedd, a beth fydd rôl a chyfrifoldebau rheoleiddio Ofwat. Cyhoeddodd y grŵp ei **adroddiad terfynol** ym mis Rhagfyr 2015.





## Cyfoeth Naturiol Cymru

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn gyfrifol am reoli adnoddau dŵr, a monitro a gwella ansawdd dŵr - gan gynnwys dŵr croyw, dŵr morol, dŵr wyneb a dŵr tanddaearol yng Nghymru. Mae hefyd yn **gweithredu ac yn gorfodi rheoliadau, polisïau a thrwyddedau** sy'n ymwneud â'r canlynol:

- dŵr wyneb a dŵr daear;
- tynnu dŵr, effeithlonrwydd dŵr ac ansawdd dŵr;
- rheoli adnoddau dŵr yng Nghymru a sicrhau bod cwmnïau dŵr yn darparu Cynlluniau Rheoli Adnoddau Dŵr (gweler isod);
- cyflafareddu rhwng ymgymerwyr carthffosiaeth ac unigolion o ran cysylltiad prif gyflenwad carthffosiaeth;
- rheoleiddio cyflenwadau dŵr preifat a thanciau septig; ac
- ystyried sut y mae datblygiadau newydd yn effeithio ar ddŵr drwy'r broses Asesiad Effaith Amgylcheddol.

### Cynlluniau Rheoli Adnoddau Dŵr (CRhAD)

O dan ***Reoliadau Cynlluniau Rheoli Adnoddau Dŵr 2007***, mae'n ofynnol i gwmnïau dŵr yng Nghymru a Lloegr lunio **Cynlluniau Rheoli Adnoddau Dŵr (CRhAD)**. Mae'r cynlluniau'n nodi sut y mae cwmnïau dŵr yn bwriadu cydbwyso cyflenwad dŵr a'r galw amdano yn eu hardal dros y 25 mlynedd nesaf, gan ystyried amcanestyniadau newid hinsawdd, twf poblogaeth a datblygiadau newydd. Mae'n ofynnol i gwmnïau dŵr ymgynghori ar CRhAD drafft ac ymateb i'r mewnbwn a gânt. Gall Llywodraeth Cymru naill ai ofyn am wrandawiad neu ymchwiliad, neu gyfarwyddo'r cwmni i gyhoeddi ei CRhAD terfynol. Mae angen i gwmnïau dŵr gyhoeddi CRhAD bob pum mlynedd a darparu adolygiadau blynyddol i Weinidogion Cymru. Mae Llywodraeth Cymru yn darparu **cyfarwyddiadau a chanllawiau** ar CRhAD (y ddau o 2016).

## Yr Arolygiaeth Dŵr Yfed

Mae'r **Arolygiaeth Dŵr Yfed** yn gweithredu yng Nghymru a Lloegr ac yn ceisio darparu sicrwydd annibynnol bod cyflenwadau dŵr y cyhoedd yn ddiogel a bod ansawdd dŵr yfed yn dderbyniol i ddefnyddwyr. Mae'n gyfrifol am wirio'r profion a gynhelir gan gwmnïau dŵr ac archwilio labordai cwmnïau dŵr yn annibynnol.

Pan fo methiannau mewn safonau, gall ddefnyddio ei bwerau gorfodi i'w gwneud yn ofynnol i gwmnïau dŵr fynd i'r afael â gwraidd y broblem, cynnal ymchwiliadau a gwneud argymhellion i sicrhau nad yw problemau'n codi yn y dyfodol. Caiff ei bwerau a'i ddyletswyddau eu nodi yn ***Neddf y Diwydiant Dŵr 1991*** (fel y'i diwygiwyd gan ***Ddeddf Dŵr 2003***).

Caiff y Prif Arolygydd Dŵr Yfed ei benodi ar y cyd gan Weinidogion Cymru a Gweinidogion y DU.

## Y Cyngor Defnyddwyr Dŵr

Nid yw'r **Cyngor Defnyddwyr Dŵr** yn rheoleiddiwr, ond mae'n gyfrifol am gynrychioli cwsmeriaid dŵr a charthffosiaeth yng Nghymru a Lloegr. Cafodd ei greu o dan ***Ddeddf Dŵr 2003*** ac mae ganddo bwyllgor a swyddfa yng Nghymru.

Gall y Cyngor gyflwyno cwynion cwsmeriaid i gwmnïau dŵr pan maent wedi ceisio ac wedi methu â chodi'r materion hyn yn uniongyrchol gyda'r cwmni. Mae'r Cyngor hefyd yn cynnal ymchwil ar brofiadau a safbwyntiau cwsmeriaid ac yn rhoi hyn i'r awdurdodau eraill. Hefyd, mae ganddo rôl wrth gynrychioli cwsmeriaid ym mhroses adolygu pris Ofwat.

## Awdurdodau Lleol

O dan ***adran 77 o Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991***, mae dyletswydd ar awdurdodau lleol i fod yn ymwybodol o 'iachusrwydd a digonolrwydd' cyflenwadau dŵr yn eu hardal. Os ydynt o'r farn bod y cyflenwad dŵr yn annigonol, neu y gallai fod yn annigonol, mae dyletswydd arnynt i roi gwybod i'r cyflenwyr dŵr sy'n gorfod cymryd camau ar ôl cael y wybodaeth hon. Mae awdurdodau lleol hefyd yn gyfrifol am fonitro cyflenwadau dŵr preifat yn eu hardal usa gallant, o bryd i'w gilydd, samplu cyflenwadau dŵr a dyfroedd ymdrochi cyhoeddus.

Mae gan awdurdodau cynllunio lleol hefyd rôl drwy'r broses gynllunio i asesu pa mor ddigonol yw'r cyflenwadau dŵr a charthffosiaeth ar gyfer datblygiadau newydd ac effaith datblygiadau posibl ar systemau draenio trefol cynaliadwy a pherygl llifogydd lleol.





# Ffynonellau allweddol

- Llywodraeth Cymru, **Dŵr**
- **Ofwat**
- Cyfoeth Naturiol Cymru, **Rheoli dŵr**
- **Yr Arolygiaeth Dŵr Yfed**
- Y Cyngor Defnyddwyr Dŵr, **Cymru**
- **Dŵr Cymru**
- **Hafren Dyfrdwy**
- Llywodraeth y DU, **Diwydiant dŵr**